Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Polisi a Gweithdrefnau Gwybodaeth Amgylcheddol Tachwedd 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Polisi a Gweithdrefnau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

# Polisi a Gweithdrefnau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

## Cyflwyniad

Mae Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (RhGA) yn rhoi'r hawl i unigolion a sefydliadau ofyn am wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus. Mae'r RhGA yn darparu dwy hawl gysylltiedig – yr hawl i gael gwybod a yw'r wybodaeth yn bodoli a'r hawl i dderbyn y wybodaeth honno, yn amodol ar eithriadau. Mae'r hawl i fynediad yn berthnasol beth bynnag fo diben y cais. Cyfeirir at hyn fel 'cais dall' ac felly caiff pawb ei drin yn yr un ffordd. Gall ceisiadau am wybodaeth amgylcheddol fod yn ysgrifenedig, neu ar lafar; ond anogir ymgeiswyr i'w cyflwyno'n ysgrifenedig. Os bydd ymgeisydd angen cymorth i gyflwyno'r cais, rydym yn hapus i ddarparu cyngor ar hyn. Dylai Gwybodaeth Amgylcheddol gael ei darparu iddynt o fewn 20 diwrnod fel arfer, yn ddarostyngedig i unrhyw eithriad i ddatgelu. Mae hyn yn gallu cael ei ymestyn i 40 diwrnod ar gyfer ceisiadau cymhleth neu gyfaint. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gwbl ymrwymedig i gyrraedd nodau'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig, a bydd yn gwneud ei orau glas i gyflawni'r rhwymedigaethau.

### Diffiniad o Wybodaeth Amgylcheddol

Mae diffiniad cyfreithiol o 'wybodaeth amgylcheddol' wedi'i gynnwys yn atodiad B. Mae crynodeb defnyddiol o'r categorïau wedi'i ddarparu gan y llysoedd:

Gwybodaeth ar gyflwr dŵr, aer, pridd, ffawna, fflora, tir a safleoedd naturiol; gwybodaeth ar weithgareddau neu fesurau sy'n effeithio neu'n debygol o effeithio ar y ffactorau amgylcheddol hynny; a gwybodaeth ar weithgareddau neu fesurau a ddyluniwyd i ddiogelu'r ffactorau hynny.

### Amcanion

Mae'r polisi hwn yn amlinellu dull Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth a wneir dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Ceir polisïau ar wahân ar gyfer ceisiadau Deddf Diogelu Data a cheisiadau am wybodaeth (heb fod yn amgylcheddol) dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Os derbynnir cais dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ond bod y cais mewn gwirionedd yn berthnasol i'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol neu'r Ddeddf Diogelu Data, bydd y Cyngor yn cyfeirio'r cais yn awtomatig drwy'r polisi priodol, fel y mae'n ofynnol iddo

wneud, oherwydd bod gwahanol eithriadau yn bodoli ac felly gwahanol hawliau cyfreithiol yn bodoli dan yr amgylchiadau. Nid yw cais yn angenrheidiol angen nodi o dan ba drefn maent yn ymgeisio, ond mae'n ddefnyddiol wrth anfon cais o leiaf i nodi o dan ba drefn yr ydych yn ymgeisio.

## Amcanion ein polisi

Nod y polisi hwn yw sicrhau hawl i wybodaeth a gedwir gan y Cyngor er mwyn hyrwyddo gonestrwydd, darparu mwy o dryloywder o ran penderfyniadau a meithrin ffydd a hyder y cyhoedd. Gall darparu hawl i wybodaeth ynglŷn â'r penderfyniadau a wnawn helpu pobl leol i ddylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaeth leol. Bydd y nodau hyn yn cael eu cydbwyso yn erbyn yr angen i sicrhau cyfrinachedd gwybodaeth benodol, lle na fyddai datgelu'r wybodaeth yn cael ei ystyried er budd y cyhoedd.

## Prif ymrwymiad i hawl i wybodaeth

Mae'r polisi hwn yn nodi'r egwyddorion cyffredinol y bydd y Cyngor yn eu mabwysiadu i ymateb i geisiadau am wybodaeth dan y Ddeddf. Mae ffynhonnell ein rhwymedigaethau yn gytundeb Cenhedloedd Unedig rhyngwladol a lofnodwyd a mabwysiadwyd gan y DU yn Aarhus, Denmarc, a elwir yn 'Gonfensiwn Mynediad i Wybodaeth, Cyfranogiad y Cyhoedd mewn Gwneud Penderfyniadau a Mynediad i Faterion Amgylcheddol'. Mae Erthygl 1 o Gonfensiwn Aarhus yn nodi:

"Er mwyn cyfrannu at ddiogelu hawl pob unigolyn a chenedlaethau'r dyfodol i fyw mewn amgylchedd digonol i'w hiechyd a lles, bydd pob parti yn sicrhau hawl i wybodaeth, cyfranogiad y cyhoedd mewn gwneud penderfyniad a mynediad i gyfiawnder ar faterion amgylcheddol yn unol â darpariaeth y Confensiwn hwn."

## Amcanion y Polisi

- Darparu fframwaith sy'n cefnogi ac yn cadw at egwyddorion Confensiwn Aarhus.
- Gwella 'democratiaeth amgylcheddol'.
- Sicrhau dull cyson i roi egwyddorion Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ar waith, i wneud penderfyniadau RhGA ac i orfodi eithriadau RhGA.
- Sicrhau bod y cyngor yn bodloni arfer da yn y Cod Ymarfer ar ryddhau rhwymedigaethau awdurdodau cyhoeddus o dan RhGA.

# Polisi a Gweithdrefnau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

- Cadarnhau y bydd y Cyngor yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
- Bod yn ganllaw defnyddwyr.
- Sicrhau cysondeb wrth gyhoeddi gwybodaeth drwy gynllun cyhoeddi'r Cyngor a chysondeb o ran ymatebion y Cyngor i ymholiadau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.
- Gweithio tuag at weledigaeth hirdymor o fanteisio ar yr holl dechnoleg sydd ar gael a chyhoeddi'r holl wybodaeth, oni bai bod rheswm cyfreithlon dros beidio â gwneud hynny.
- Gweithredu'n rhesymol a chymesur o fewn yr adnoddau sydd ar gael.
- Gosod pridiannau'r Cyngor yn glir, a adolygir o dro i dro.
- Sicrhau bod rhwymedigaethau'r Cyngor o dan y ddeddfwriaeth gwybodaeth amgylcheddol hefyd yn cefnogi ein hamcanion 'Datblygu Cynaliadwy' a 'Lles' sydd o dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## Cwmpas

Mae'r polisi yn berthnasol i'r holl wybodaeth gofnodedig a gedwir gan Gyngor Sir Ddinbych. Gall gwybodaeth gofnodedig gynnwys negeseuon e-bost, copïau papur, fideos, DVDs, ffotograffau, ffeiliau digidol, cofau bach//ffyn cof/cofau USB, ac unrhyw ffurf arall o wybodaeth 'gofnodedig' a gedwir ar adeg derbyn y cais. Cedwir y wybodaeth gan y Cyngor ac nid gan Swyddogion neu Aelodau'r Cyngor. Mae'r polisi yn berthnasol i bob aelod o staff a chynghorydd, os yw'r wybodaeth a gedwir yn eiddo i'r Cyngor.

Gohebiaeth rhwng cynghorydd a'i breswylydd pan mae'r cynghorydd yn gweithredu yn rhinwedd eu gallu fel cynrychiolydd ward etholedig, ddim yn dod o fewn trefn Rhyddid Gwybodaeth neu RhGA. Mae Cynghorwyr yn ddarostyngedig i Ddeddf Diogelu Data, fodd bynnag, a gall dyletswyddau a chyfrinachedd rhwng preswylwyr lleol a chynghorydd fod yn berthnasol; er bod y rhain drwy gyfeiriad e-bost sirddinbych.gov.uk y cynghorydd.

Mae'r polisi yn cynnwys pob cais am wybodaeth, ac eithrio ceisiadau gan unigolion am eu data personol hwy, ceisiadau Gwybodaeth Amgylcheddol a cheisiadau 'busnes fel arfer' arferol. Mae cais 'busnes fel arfer' yn gais am wybodaeth neu wasanaethau y byddai maes gwasanaeth yn disgwyl ei dderbyn fel rhan o'i waith dyddiol arferol. Ni ellir trin

unrhyw gais sy'n nodi ei fod yn gais gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fel 'busnes fel arfer'.

Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhagweithiol drwy ein gwefan a'n cynllun cyhoeddi. Mae'r cynllun cyhoeddi yn cynnwys canllaw i wybodaeth, sy'n dangos y mathau o wybodaeth sydd ar gael gennym.  Bydd y wybodaeth ar y cynllun cyhoeddi ar gael yn unol â darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010.  Po fwyaf gwybodus yw trigolion am eu hamgylchedd lleol, y mwyaf y byddan nhw'n barod i gyfrannu at y penderfyniadau y mae'r Cyngor yn eu gwneud yn ei gylch.

Byddwn yn darparu mynediad i wybodaeth amgylcheddol drwy Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Byddwn yn trin ceisiadau dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn unol â Pholisi Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol Cyngor Sir Ddinbych. Mae'r gyfraith yn y maes hwn yn deillio o Gyfarwyddeb UE, sy'n nodi bod yn rhaid i'r Cyngor dros amser, ledaenu gwybodaeth amgylcheddol yn gynyddol.

## Cyngor a Chymorth

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i ddarparu cyngor a chymorth i geiswyr dan Reoliad 9 Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, i'r graddau y byddai'n rhesymol i'r awdurdod wneud hynny. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gydymffurfio â'i ddyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus ac yn hyn o beth unrhyw un sydd angen cymorth e.e. oherwydd anabledd neu rwystrau iaith yn derbyn cymorth gan y tîm Hawl i Wybodaeth i wneud cais dan y RhGA.  Bydd y Cyngor yn cynnig cyngor a chymorth i unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n dymuno gwneud cais am wybodaeth.  Mae'r Cyngor yn ymrwymo i ddelio gyda cheisiadau o fewn y canllawiau statudol, o fewn 20 diwrnod gwaith neu'n gynt.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r polisi hwn neu hawl i wybodaeth o fewn y Cyngor at:

Hawl i Wybodaeth
Gwasanaethau Cyfreithiol
Cyngor Sir Ddinbych
Blwch Post 62
Rhuthun
LL15 9AZ

# Polisi a Gweithdrefnau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

E-bost: gwybodaeth@sirddinbych.gov.uk Ffôn: 01824 708242

## Rolau a chyfrifoldebau

### Penaethiaid Gwasanaeth

- Yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth weithredol gyda'r polisi o fewn eu gwasanaeth a'u cynllun dirprwyo
- Penodi Swyddogion Rheoli Gwybodaeth i fod yn gyfrifol am geisiadau rhyddid gwybodaeth a RhGA.
- Hyrwyddo cyhoeddi gwybodaeth ar y wefan
- Sicrhau bod swyddogion sy'n gyfrifol am geisiadau rhyddid gwybodaeth a RhGA yn derbyn cefnogaeth gyda'u gwaith mewn perthynas ag ymrwymiad ac adnoddau.
- Sicrhau bod staff yn cydymffurfio â'r polisi a'r gweithdrefnau rhyddid gwybodaeth a RhGA.
- Adnabod materion rhyddid gwybodaeth a RhGA wrth gynllunio gwasanaeth a dyrannu adnoddau.

### Swyddogion Hawl i Wybodaeth, Gwasanaethau Cyfreithiol

- Darparu cyngor a chyfarwyddyd o ran polisi a gweithdrefnau rhyddid gwybodaeth/ Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol
- Darparu hyfforddiant materion rhyddid gwybodaeth / Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol
- Cofnodi holl fanylion y cais am wybodaeth
- Sicrhau bod y system ceisiadau am wybodaeth electronig yn cael ei diweddaru
- Cydlynu ceisiadau am wybodaeth ar y cyd â Swyddogion Rheoli Gwybodaeth.
- Ystyried a yw'r cais am wybodaeth yn flinderus, yn ailadroddus (h.y. y ceisydd wedi gofyn am yr wybodaeth neu wybodaeth debyg o fewn y 120 diwrnod diwethaf) neu'n debygol o gymryd mwy na 18 awr i gasglu'r wybodaeth
- Ystyried ymatebion drafft swyddogion a sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei darparu (yn amodol ar unrhyw eithriad dan y Rheoliadau).
- Paratoi ymatebion ar gyfer adolygiadau mewnol, gan atgyfeirio cwynion at y gwasanaeth, neu'r Panel Hawl i Wybodaeth, yn ôl yr angen.
- Nodi achosion cymhleth neu sensitif sydd angen eu hatgyfeirio at y Panel Hawl i

Wybodaeth

- Paratoi papurau a chyngor i'r Panel Hawl i Wybodaeth
- Datblygu a chynnal y polisi a'r gweithdrefnau RhGA.
- Cyhoeddi setiau data addas ar y wefan a ddarparwyd mewn ymatebion RhGA, yn unol ag ysbryd Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.
- Cyhoeddi ystadegau Rhyddid Gwybodaeth a RhGA ar y wefan.
- Monitro ac adolygu effeithiolrwydd y polisi a'r gweithdrefnau
- Adrodd ar gydymffurfiaeth yn flynyddol i'r Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth.

## Swyddogion Rheoli Gwybodaeth

- Cydlynu ceisiadau am wybodaeth
- Sicrhau bod ceisiadau am wybodaeth yn cael eu trin yn effeithiol yn eu Gwasanaeth, drwy gydlynu ceisiadau.
- Sicrhau bod y swyddog cywir yn delio â'r cais neu, fel arall, trosglwyddo'r cais yn ôl i'r Swyddog Hawl i Wybodaeth cyn gynted â phosibl
- Anfon unrhyw gais a geir yn uniongyrchol at y Gwasanaeth, at y Swyddog Hawl i Wybodaeth.
- Hyrwyddo'r polisi a'r gweithdrefnau o fewn eu gwasanaeth, gan roi gwybod am unrhyw anhawster i'r Tîm Hawl i Wybodaeth.
- Sicrhau bod unrhyw gronfa ddata berthnasol neu daenlen yn cael ei diweddaru'n briodol
- Ystyried a yw'r cais am wybodaeth yn flinderus, yn ailadroddus (h.y. y ceisydd wedi gofyn am y wybodaeth neu wybodaeth debyg o fewn y 120 diwrnod diwethaf) neu'n debygol o fod yn ddrud (dros 18 awr i gasglu'r wybodaeth). Os yw'r cydlynydd cais yn ystyried bod y cais yn unrhyw un o'r rhain, mae'n rhaid iddynt hysbysu'r Swyddog Hawl i Wybodaeth ar unwaith.
- Bydd Swyddogion Rheoli Gwybodaeth yn derbyn hyfforddiant ychwanegol ac yn gyfrifol am ddarparu arweiniad i staff eu gwasanaeth ar hawl i wybodaeth yn unol â'r polisi hwn

**Cyfarwyddwr Corfforaethol – Llywodraethu a Busnes**

- Darparu cyngor cyfreithiol (ar gais) ar gyfreithlondeb ymatebion arfaethedig a hysbysiadau gwrthod

# Polisi a Gweithdrefnau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

- Fel Cadeirydd y Panel Hawl i Wybodaeth, darparu cyngor a gwneud penderfyniadau ar achosion sydd wedi'u hatgyfeirio at y Panel (Mae Cylch Gorchwyl y Panel yn Atodiad A).
- Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Llywodraethu a Busnes wedi'i awdurdodi i weithredu fel y "person cymwys" o dan Adran 36 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ond bydd yn ymgynghori â'r Panel Hawl i Wybodaeth ar y penderfyniad.

**Holl Weithwyr y Cyngor**

- Bod yn ymwybodol o Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a beth maen nhw'n ei olygu.
- Nodi unrhyw gais sy'n dod o dan y Rheoliadau, a ddaw yn uniongyrchol gan y ceiswyr.
- Dilyn y polisi hwn a'r gweithdrefnau wrth drin ceisiadau RhGA.
- Delio â'r holl geisiadau cyn gynted â phosibl ac o fewn 20 diwrnod gwaith o'u derbyn
- Sicrhau bod y Swyddog Rheoli Gwybodaeth neu'r Swyddog Hawl i Wybodaeth yn derbyn cofnod o'r holl geisiadau.
- Darparu cyngor a chymorth i unigolion sy'n gwneud cais am wybodaeth.
- Dylai staff sy'n delio'n bennaf â gwybodaeth amgylcheddol (fel staff sy'n gweithio i unedau gwastraff neu gynllunio) fod yn ymwybodol bod modd gwneud ceisiadau am wybodaeth amgylcheddol ar lafar, nid yn ysgrifenedig yn unig yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth
- Dylid cofio, unwaith y mae cais am wybodaeth wedi'i wneud, bod y wybodaeth honno yn derbyn statws arbennig Bydd yn drosedd addasu, difwyno, atal, dileu, dinistrio neu guddio'r wybodaeth er mwyn atal ei datgelu. Mae'r Cyngor neu'r unigolyn yn atebol i ddirwy.

## Cynllun Cyhoeddi'r Cyngor

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi ac wedi ymrwymo i ddiweddaru a chynnal y cynllun i wneud yn siŵr ei fod yn gyfoes a pherthnasol. Mae'r Cynllun Cyhoeddi yn cynnwys dogfennau, polisïau, cynlluniau a chanllawiau a ddefnyddir gan y Cyngor. Mae'r deunyddiau a geir yn y cynllun ar gael ar y rhyngrwyd. Pan fo ffioedd yn berthnasol, bydd hynny wedi'i nodi yn y cynllun.

# Polisi a Gweithdrefnau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

### Ffioedd a Thaliadau

Os bydd y Cyngor yn penderfynu dibynnu ar bŵer statudol i godi tâl, bydd hyn yn cael ei ychwanegu fel atodiad i'r polisi hwn ar ein gwefan.

Mae ceisiadau am Ddata Chwilio Eiddo yn dod o fewn y diffiniad gwybodaeth amgylcheddol ac mae pa un a yw'r Cyngor yn codi tâl am y math yma o wybodaeth yn dibynnu ar y llwybr mae'r ymgeisydd yn dymuno ei ddefnyddio. Mae'r dewisiadau hyn yn Atodiad D ac ar ein gwefan.

## Gwrthod ceisiadau

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd yna rywfaint o wybodaeth na ddylid ei datgelu neu nad ydyw ei datgelu er lles y cyhoedd. Dan yr amgylchiadau hyn bydd y Cyngor yn sicrhau bod ceiswyr yn derbyn rhesymau clir a chywir dros wrthod y cais a chymorth i ganfod gwybodaeth berthnasol amgen. Mae gan geiswyr yr hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am yr hawl hon a gallant ofyn am adolygiad o'r fath os nad ydynt yn fodlon ag ymateb y Cyngor.

Os yw'r Cyngor yn dibynnu ar eithriad i wrthod cais am wybodaeth yna bydd y ceisydd yn cael gwybod am yr eithriad priodol a pham ei fod yn berthnasol. Mae Atodiad C yn nodi'r prif eithriadau sy'n debygol o fod yn berthnasol i wybodaeth a gedwir gan y Cyngor. Os yw'r rhesymeg y tu ôl i'r eithriad, neu'r eithriad ei hun, yn arwain at ddatgelu gwybodaeth eithriedig, yna mae'n bosibl na fydd y Cyngor yn darparu'r rheswm hwnnw.

Os yw'r Cyngor yn penderfynu bod lles y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy na lles y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth, yna bydd hynny'n cael ei nodi yn y llythyr gwrthod ynghyd â'r ffactorau lles y cyhoedd, sydd wedi'u hystyried, ac sy'n ffurfio rhan sylweddol o'r penderfyniad.

Os yw dogfen yn cynnwys gwybodaeth eithriedig, ni fydd y Cyngor yn gwrthod mynediad at y ddogfen gyfan oni bai bod wir angen gwneud hynny er mwyn sicrhau nad yw'n datgelu gwybodaeth eithriedig. Pan fo rhan o ddogfen yn eithriedig, fel rheol dim ond y rhannau hynny sy'n cynnwys yr wybodaeth eithriedig fydd yn cael eu hatal.

# Polisi a Gweithdrefnau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

At ddibenion monitro, mae gan y Cyngor gofnod canolog o'r holl geisiadau sydd wedi'u cyflwyno dan y Ddeddf Rhydid Gwybodaeth. Bydd hefyd yn archwilio penderfyniadau i sicrhau bod achosion o wrthod ceisiadau wedi'u cyfiawnhau ac yn rhesymol.

## Estyniadau

Mae gan y Cyngor hawl i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau gwybodaeth amgylcheddol o ugain diwrnod gwaith, pan mae'r achosion yn gymhleth.  Fodd bynnag, os bydd cais yn faich afresymol ar ein hadnoddau, yna byddwn yn ei wrthod fel cais afresymol amlwg.

## Ceisiadau afresymol amlwg:  Terfyn Cost

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi nodi bod y canllawiau sy'n ymwneud â'r ffioedd yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn fan dechrau defnyddiol wrth weithredu'r eithriad. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd awdurdodau cyhoeddus angen derbyn mwy o faich wrth ddelio gyda cheisiadau am wybodaeth amgylcheddol.    Mae'n rhaid ystyried Budd y Cyhoedd hefyd.

**Terfyn cost o dan Ryddid Gwybodaeth**

Mae rhwydd hynt i'r Cyngor wrthod ateb cais os yw cost gwneud hynny yn fwy na £450. Mae hyn yn cyfateb i ddwy awr a hanner o waith (18 awr ar gyfradd o £25 yr awr o amser chwilio swyddog fel y nodir yn y rheoliadau).

Wrth gyfrifo a fyddai ateb cais yn rhagori ar y trothwy hwn, bydd y Cyngor yn ystyried y costau ynghlwm wrth y gweithgareddau canlynol: penderfynu a oes ganddo'r wybodaeth; lleoli ac adalw'r wybodaeth; ac echdynnu'r wybodaeth.

Wrth gymhwyso'r ffioedd nid oes modd i'r Cyngor gyfrif cost ystyried a yw'r wybodaeth yn eithriedig dan y Ddeddf na'r amser a gymerwyd i olygu dogfennau, na threuliau posibl wrth gyhoeddi Hysbysiadau Codi Tâl.

Os amcangyfrifir y bydd cost y cais yn llai na'r £450 a ragnodwyd, ac nad oes unrhyw sail arall i wrthod delio â'r cais, bydd y Cyngor yn ymateb i'r cais.  Mae'r tâl mwyaf y mae modd ei godi dan yr achosion hyn yn gyfyngedig i gostau penodol postio, argraffu a llungopïo, sef y 'costau traul' h.y. cost rhoi gwybod i'r ceisydd a yw'r Cyngor yn meddu ar yr

wybodaeth, ailgynhyrchu unrhyw ddogfen sy'n cynnwys yr wybodaeth, a chyfleu'r wybodaeth i'r ceisydd.

Os yw'r Cyngor yn dewis ymateb i gais a fydd yn costio mwy na £450, bydd yn cysylltu â'r ceisydd ac yn ei gynghori ynghylch pa wybodaeth fydd ar gael dan y trothwy hwnnw h.y. trafod a yw'r ceisydd yn dymuno addasu'r cais i leihau'r costau mewn perthynas ag amser swyddog.

Os yw'r ceisydd yn dymuno bwrw ymlaen â'r cais gwreiddiol, bydd y tâl mwyaf yn cyfateb i gyfanswm y costau a amcangyfrifir:

Darganfod a yw'r Cyngor yn meddu ar y wybodaeth, lleoli ac adalw'r wybodaeth, ac echdynnu'r wybodaeth o ddogfen (cost ragnodedig amser swyddog); a rhoi gwybod i'r ceisydd a yw'r Cyngor yn meddu ar y data gan gyfleu'r wybodaeth i'r unigolyn sy'n gwneud y cais (alldaliadau).

Os yw'r ceisydd yn anghytuno â'r tâl arfaethedig yna fe all apelio drwy weithdrefn gwynion y Cyngor.

## Ceisiadau afresymol amlwg: Blinderus

### Ceisiadau ailadroddus

Pan dderbynnir cais ailadroddus sydd yr un peth neu'n debyg iawn i gais blaenorol gan yr un person, bydd y Cyngor yn ystyried hwn fel cais ailadroddus. Nid oes yn rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â cheisiadau ailadroddus am wybodaeth dan y Ddeddf Gwybodaeth Amgylcheddol oni bai bod cyfnod rhesymol wedi mynd heibio ers y cais blaenorol a llunio'r cais presennol. Wrth benderfynu a ddylid categoreiddio cais am wybodaeth fel cais ailadroddus bydd yn rhaid i'r Cyngor ystyried: yr amser sydd wedi mynd heibio ers y cais blaenorol; pa un ai yw'r cais yr un peth neu'n debyg iawn i'r cais blaenorol; pa un ai oed gwybodaeth berthnasol newydd wedi'i chreu ers y cais blaenorol. Cyfnod rhesymol yw 120 diwrnod gwaith.

Os gwrthodir cais oherwydd yr ystyrir iddo fod yn un ailadroddus, bydd y Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod gwaith i dderbyn y cais. Bydd y Cyngor yn anfon llythyr safonol yn nodi bod y cais wedi'i wrthod ar y sail ei fod yn un

ailadroddus. Bydd y ceisydd yn derbyn gwybodaeth am broses adolygu mewnol y Cyngor. Bydd manylion yr hawl i apelio i'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd ynghlwm wrth y llythyr.

Pan fo hysbysiad eisoes wedi'i gyhoeddi i'r ceisydd bod y cais yn un ailadroddus, yna ni fydd y Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad arall.

### Ceisiadau blinderus

Nid oes yn rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â cheisiadau blinderus dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

Bydd y Cyngor yn defnyddio'r term 'blinderus' yn deg a chyson. Wrth benderfynu a ddylid gwrthod cais oherwydd ei fod yn flinderus, bydd y Cyngor yn ystyried holl amgylchiadau'r cais, yn cynnwys:

- Cyd-destun a hanes y ceisiadau a gyflwynwyd gan y ceisydd; ceisiadau ailadroddus gan y ceisydd (gwelwch 'Ceisiadau Ailadroddus').
- A yw'r cais yn debygol o achosi gofid, amhariadau neu ddicter diangen.
- A ystyrir fod y cais yn rhan o obsesiwn.
- A yw cydymffurfio â'r cais yn gosod baich sylweddol.
- A yw'r ceisydd yn cyflwyno ceisiadau yn gyson neu'n barhaus heb reswm amlwg
- Oes posibilrwydd bod y ceisiadau yn cael eu gwneud yn fwriadol i achosi aflonyddwch, gofid i staff, i ddargyfeirio adnoddau neu i amharu ar waith y Cyngor

Mae'r Cyngor yn ymwybodol y dylid cymhwyso'r term 'blinderus' i gais yr ymgeisydd ac nid i'r ceisydd. Bydd y Cyngor yn asesu a yw cais yn flinderus neu beidio yn seiliedig ar y math o wybodaeth a ofynnir amdani ac nid hunaniaeth y ceisydd.

Lle gwrthodir cais ar y sail y bernir ei fod yn flinderus, bydd hysbysiad ysgrifenedig gan y Cyngor yn cael ei gyhoeddi o fewn 20 diwrnod gwaith o dderbyn y cais.

Bydd y Cyngor yn anfon llythyr neu e-bost safonol yn nodi bod y cais wedi'i wrthod ar y sail ei fod yn un blinderus. Bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am y gweithdrefnau mewnol ar gyfer delio â chwynion. Bydd manylion yr hawl i apelio i'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd ynghlwm wrth y llythyr.

# Polisi a Gweithdrefnau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

Os yw'r ceisydd eisoes wedi derbyn hysbysiad yn nodi bod y cais wedi'i gategoreiddio'n un blinderus, yna ni fydd y Cyngor yn cydnabod nac yn ymateb i geisiadau dilynol sy'n ymwneud â'r un testun neu destun tebyg.

Pan dderbynnir cais a bod posibilrwydd ei fod yn amwys yn hytrach na blinderus oherwydd diffyg gwybodaeth ar ran y ceisydd, bydd y Cyngor yn cysylltu â'r ceisydd i dderbyn eglurhad pellach. Gellir gwneud hynny dros y ffôn neu drwy wneud cais ysgrifenedig am eglurhad.

Os oes angen, bydd y Panel Hawl i Wybodaeth yn cwrdd i wneud penderfyniad o ran a yw'r trothwy ar gyfer eithriad wedi'i gyrraedd, cyn cymryd unrhyw gam gweithredu arall.

## Trosglwyddo ceisiadau am wybodaeth i awdurdod cyhoeddus arall

Os yw'r Cyngor yn derbyn cais am wybodaeth nad yw'n ei chadw, ond yn gwybod fod yr wybodaeth honno ar gael gan awdurdod cyhoeddus arall, yna bydd yn darparu cymaint o gymorth â phosibl i'r ceisydd drosglwyddo'r cais i'r awdurdod sy'n dal yr wybodaeth. Yn syml, gall y Cyngor eu cyfeirio at yr awdurdod cyhoeddus priodol.

Os oes gan y Cyngor unrhyw ddarn o wybodaeth y gofynnwyd amdani, bydd yn delio â'r rhan ohono o'r cais fel cais Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ac yn ei brosesu'n unol â hynny. Ar y cyfle cyntaf posibl bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i'r ceisydd am yr wybodaeth nad oes ganddo ac yn darparu cymorth rhesymol i helpu'r ceisydd leoli'r wybodaeth honno.

Os bydd yr ymgeisydd yn dweud wrth y Cyngor nad yw'n gwrthwynebu trosglwyddo'r cais i'r awdurdod cyhoeddus arall, gall y Cyngor drosglwyddo'r cais yn uniongyrchol i'r awdurdod arall. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i'r ceisydd ei fod yn gwneud hynny.

Bydd yr holl geisiadau i drosglwyddo a chyswllt gyda'r rheiny sydd wedi gwneud cais am wybodaeth a gedwir gan awdurdod cyhoeddus arall yn cael eu gwneud cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi unrhyw oedi gormodol.  Nid yw'r amserlen ar gyfer cydymffurfio â'r cais o ran yr wybodaeth nad yw Cyngor Sir Ddinbych yn ei chadw yn dechrau hyd nes bod yr awdurdod cyhoeddus sy'n meddu ar yr wybodaeth honno yn derbyn y cais hwnnw.

# Polisi a Gweithdrefnau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

## Ymgynghori gyda thrydydd parti

Mae’r Cyngor yn cydnabod y gall datgelu gwybodaeth effeithio ar hawliau cyfreithiol trydydd parti ac mae’r polisi hwn wedi’i lunio yn unol â thelerau Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae’r Cyngor yn cydnabod ymhellach, oni nodir eithriad yn y Rheoliadau, bod angen datgelu’r wybodaeth honno wrth ymateb i gais.

Os oes angen derbyn caniatâd trydydd parti cyn datgelu gwybodaeth, bydd y Cyngor, ar y cyfle cyntaf posibl, yn ceisio ymgynghori â’r trydydd parti gyda’r bwriad o geisio derbyn eu caniatâd i ddatgelu, oni bai nad yw ymgynghoriad o’r fath yn ymarferol. Gall yr ymgynghoriad helpu’r Cyngor i benderfynu a yw eithriad dan y RhGA yn berthnasol i'r wybodaeth a geisir, neu efallai y bydd barn y trydydd parti yn helpu'r Cyngor i benderfynu beth yw lles y cyhoedd. Nid yw’r ffaith bod trydydd parti yn gwrthod datgelu’r wybodaeth yn golygu na fydd yr wybodaeth yn cael ei datgelu. Os yw cost yr ymgynghoriad gyda’r trydydd parti yn anghymesur, efallai na fydd yn cael ei gynnal. Ni fydd y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad os nad yw’n bwriadu datgelu’r wybodaeth oherwydd eithriad arall, neu lle na fyddai barn y trydydd parti yn cael unrhyw effaith ar benderfyniad y Cyngor oherwydd nad oes eithriad yn berthnasol.

## Contractau

Bydd rhai contractau yn cael eu hystyried yn wybodaeth amgylcheddol os ydynt yn ymwneud â gwaith ar yr amgylchedd neu'n effeithio ar yr amgylchedd. Ni fydd y Cyngor yn cynnwys telerau contractau, megis cymalau cyfrinachedd, sy’n dynodi cyfyngiad ar ddatgelu gwybodaeth a gedwir gan y Cyngor mewn perthynas â’r contract y tu hwnt i eithriadau o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Oni bai y ceir eithriad dan y Rheoliadau mewn perthynas ag unrhyw ran benodol o’r contract, yna bydd yn rhaid i’r Cyngor ddatgelu’r wybodaeth honno mewn ymateb i gais beth bynnag fo telerau’r contract. Efallai y bydd cyfrinachau masnach yn wybodaeth eithriedig, felly hefyd gwybodaeth a all rhagfarnu yn erbyn buddiannau masnachol unrhyw berson, yn cynnwys y Cyngor. Mae’r eithriad hwn yn destun prawf lles y cyhoedd h.y. pa un ai yw lles y cyhoedd wrth gadw’r eithriad yn fwy na lles y cyhoedd wrth ddatgelu’r wybodaeth.

Yn ystod y broses dendro, bydd y Cyngor yn ceisio trafod a chytuno ar atodlen o wybodaeth nad yw’r contractwr yn dymuno ei datgelu. Fodd bynnag, hyd yn oed os cynhwysir atodlen o’r fath, efallai y bydd cyfyngiadau ar ddatgelu yn cael eu diystyru dan

rwymedigaethau'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Ymhellach i hyn, efallai y bydd lles y cyhoedd wrth ryddhau'r wybodaeth, wedi treigl amser, o blaid datgelu'r wybodaeth.

Os yw sefydliad nad yw'n gyhoeddus yn derbyn contract gan y Cyngor i ddarparu gwasanaeth sy'n rhan o swyddogaethau'r Cyngor, yna bydd y sefydliad hwnnw yn cael ei ystyried yn rhan o'r Cyngor at ddibenion Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ac mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw, yn destun telerau'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Bydd y Cyngor yn ystyried polisi a chanllawiau OGC/GPS ar ddatgelu gwybodaeth yn ymwneud â chaffael a gwybodaeth ar ôl dyfarnu contractau.

## Cwynion

Gall unrhyw un sy'n anhapus â'r ffordd y mae'r Cyngor wedi trin eu cais am wybodaeth wneud cais am adolygiad mewnol. Byddwn yn trin unrhyw fynegiant o anfodlonrwydd gydag ymateb Gwybodaeth Amgylcheddol fel cais am adolygiad mewnol. Nid yw'n debygol y bydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn ymchwilio i unrhyw gŵyn am driniaeth y Cyngor o gais am wybodaeth oni bai bod y weithdrefn gwynion wedi dod i ben heb ddatrys y mater.

Gellir cyflwyno cwyn am fethiant y Cyngor i ryddhau gwybodaeth yn unol â'r Cynllun Cyhoeddi, am geisiadau sydd heb eu trin yn briodol, neu gellir cyflwyno cwyn am anfodlonrwydd gyda chanlyniad cais. Os, yn dilyn cwyn, y penderfynir rhyddhau gwybodaeth, bydd yr wybodaeth ar gael ar y cyfle cyntaf posibl yn dilyn hysbysiad o fwriad i ddatgelu. Dylid cyfeirio cwynion am y ffordd y cafodd cais ei drin at:

Hawl i Wybodaeth
Gwasanaethau Cyfreithiol
Cyngor Sir Ddinbych
Blwch Post 62
Rhuthun LL15 9AZ

E-bost: gwybodaeth@sirddinbych.gov.uk
Ffôn: 01824 708242

Os caiff y penderfyniad i wrthod datgelu ei gadarnhau neu os yw'r weithdrefn adolygu mewnol wedi dod i ben a'r ceisydd yn dal yn anfodlon, yna bydd y ceisydd yn cael gwybod am yr hawl i wneud cais am adolygiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

## Polisi a Gweithdrefnau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

Y Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Rhif ffôn: 0303 123 1113

### Monitro ac adolygu

Bydd y Tîm Hawl i Wybodaeth yn monitro cydymffurfiad â'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig, gan weithio gyda Swyddogion Rheoli Gwybodaeth bob gwasanaeth a'r Panel Hawl i Wybodaeth. Caiff adroddiadau ar y panel a gweithgareddau'r Cyngor dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol eu cyflwyno'n flynyddol i Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor.

Bydd unrhyw dorri Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn fwriadol yn cael ei ystyried fel camymddwyn a gall arwain at gamau disgyblu.

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu fis Mawrth 2026 fan bellaf.

## Atodiad A

### Hawl i Wybodaeth Panel Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

### Cylch Gorchwyl

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i gydymffurfio â phob deddfwriaeth yn ymwneud â gwybodaeth, y Ddeddf Hawliau Dynol a dyletswydd cyfrinachedd y gyfraith gyffredin. Ym mis Ebrill 2021 rhoddodd y Cyngor gymeradwyaeth i sefydlu Panel Hawl i Wybodaeth corfforaethol, gan gymeradwyo diwygiad i'r panel yn 2020. Mae rhwymedigaethau a phwerau aelodau'r panel wedi'u nodi yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion a geir yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac sydd wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor Llawn.

# Polisi a Gweithdrefnau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

## Aelodau'r panel:

## Aelodau llawn:

- Cyfarwyddwr Corfforaethol: Swyddog Monitro Llywodraethu a Busnes (Cadeirydd)
- Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol
- Penaethiaid Gwasanaeth
- Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth

## Aelodau Cynghorol:

- Arweinydd Tîm Lleoedd (cyfreithiol gymwys)
- Dirprwy Swyddog Monitro (cyfreithiol gymwys)
- Swyddog Hawl i Wybodaeth

Mae cworwm yn y panel pan mae o leiaf un aelod llawn ac un aelod wedi ymgymhwyso yn y gyfraith yn bresennol (a all fod yn aelod cynghorol) yn bresennol.

## Rôl a phwrpas:

Diben y Panel Hawl i Wybodaeth yw dod i benderfyniadau ar ddatgelu neu ddal gwybodaeth yn ôl ar ôl derbyn cais am wybodaeth dan y Ddeddfwriaeth Gwybodaeth, gan gynnwys datgeliadau dan y Ddeddf Diogelu Data. **Nid** diben y panel yw creu haen ychwanegol fiwrocratiaeth, ond yn hytrach i sicrhau dull cyson ym mhob maes datgelu ar draws y Cyngor, gyda phwyslais ar lywodraeth agored a thryloywder, er mwyn cynyddu hyder y cyhoedd ym mhenderfyniadau'r Cyngor a'i rwymedigaethau i ddiogelu gwybodaeth bersonol. Bydd hefyd yn rhoi dewis i wasanaethau atgyfeirio materion at y panel os ydynt yn ystyried bod eithriad yn berthnasol a hynny yn erbyn barn y Swyddog Hawl i Wybodaeth.

Bydd y panel yn gwneud penderfyniadau ar eithriadau cymhleth, dadleuol, sensitif neu uchel iawn eu proffil. Bydd hefyd yn derbyn atgyfeiriadau gan wasanaethau sy'n dymuno i'r panel wneud penderfyniad ynghylch mater penodol.

Ni fydd y Panel yn gwneud penderfyniadau ar olygiadau trydydd parti syml o wybodaeth bersonol; eithriadau sydd ym marn Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

neu ei ddirprwy, a'r Swyddog Hawl i Wybodaeth, yn berthnasol i'r cais a ddim yn gofyn am ymrwymiad neu bresenoldeb y Panel.

## Telerau Aelodaeth

Mae'n un o amodau aelodaeth y Panel fod pob aelod llawn yn cael hyfforddiant ar Ddeddfwriaeth Gwybodaeth er mwyn deall a gweithredu'r eithriadau'n gywir. Ni all aelod llawn o'r Panel ddirprwyo ei gyfrifoldeb i swyddog arall nad yw'n aelod o'r Panel.

Pan fo gwrthdaro buddiannau yn effeithio ar benderfyniadau aelod o'r panel, mae'n rhaid iddo roi gwybod i'r panel am y cysylltiad hwn a pheidio â chymryd rhan yn y penderfyniad. Gallant dynnu eu 'het' i ffwrdd fel aelod o'r Panel a gwneud sylwadau o'u gwasanaeth, ond ni chânt bleidleisio ar y mater.

Bydd aelodau'r panel yn cadw manylion personol yr ymgeisydd yn gyfrinachol ac unrhyw wybodaeth gyfrinachol maent yn dyst iddi, yn eu rhinwedd fel aelodau'r panel.

Lle bo modd, bydd y panel yn ceisio dod i benderfyniad unfrydol. Lle na chaiff hyn ei gyflawni, bydd gan bob aelod un bleidlais. Bydd unrhyw fater yn cael ei ddatrys drwy fwyafrif syml o'r aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio. Pan fo ecwilibriwm bydd y Cadeirydd yn gwneud y bleidlais fwrw.

## Prosesau a Gweithdrefnau

Bydd atgyfeiriad i'r Panel Hawl i Wybodaeth yn cael ei wneud drwy'r Tîm Hawl i Wybodaeth, a fydd wedyn yn trefnu i'r panel gwrdd, gan ystyried y terfynau amser statudol y mae'n rhaid i'r gwasanaeth ymdrin â'r cais oddi mewn iddynt.

Bydd y Swyddog Hawl i Wybodaeth yn paratoi adroddiad i'r panel yn amlinellu'r materion, ond bydd rhwydd hynt i'r panel ofyn cwestiynau ac ystyried ffactorau nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad os ydynt yn credu eu bod yn berthnasol. Pan argymhellir, bydd y Gwasanaethau Cyfreithiol yn llunio ymateb i'r ceisydd. Os nad yw adroddiad ysgrifenedig ar gael, oherwydd prinder amser, yna mae'n bosibl y darperir cyngor cyfreithiol ar lafar yn ystod cyfarfod o'r Panel, a nodi hynny yn y cofnodion.

Os yw gwasanaeth yn dymuno dibynnu ar yr eithriad, bydd cynrychiolydd yn cael ei wahodd i'r panel, ond nid yw ei bresenoldeb yn orfodol.

# Polisi a Gweithdrefnau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

Bydd aelodau'r Panel Hawl i Wybodaeth yn gwneud eu gorau glas i fynychu cyfarfodydd brys pan fo'r rhain yn angenrheidiol ac yn anorfod; fodd bynnag, mae'n rhaid rhoi rhybudd rhesymol i aelodau'r Panel. Os yw'n briodol, mae'n bosibl y caiff penderfyniadau brys eu gwneud yn electronig, cyn belled nad yw'r cais yn un cymhleth ac nad oes rhaid i'r adran sy'n dymuno dibynnu ar yr esemptiad fod yn bresennol.

## Atodiad B

### Diffiniad o Wybodaeth Amgylcheddol

Mae'r diffiniad o wybodaeth amgylcheddol yn eang ac yn cynnwys:

- cyflwr elfennau'r amgylchedd fel aer a'r amgylchedd, pridd, tir a thirwedd a safleoedd naturiol, amrywiaeth biolegol;
- ffactorau fel sylweddau, ynni, sŵn, ymbelydredd, gwastraff neu ollyngiadau eraill;
- mesurau fel polisïau, deddfwriaeth, cynlluniau, rhaglenni, cytundebau a gweithgareddau (a chost a budd neu ddadansoddi economaidd ar fesurau o'r fath) yn effeithio/debygol o effeithio ar yr uchod;
- adroddiadau ar weithredu deddfwriaeth amgylcheddol; a
- cyflwr iechyd a diogelwch dynol gan gynnwys halogiad, cyflyrau bywyd dynol, safleoedd diwylliannol a strwythurau adeiledig

Sut mae'r diffiniad hwn yn berthnasol yn ymarferol? Mae enghreifftiau wedi eu cynnwys isod, ond yr union wybodaeth yw'r ffactor pwysig i benderfynu pa un a yw'r wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad uchod.

**Gwybodaeth sy'n amgylcheddol:**

- mwyafrif o gais / ceisiadau cynllunio
- gwybodaeth am gynlluniau lleol
- cytundebau Adran 106
- cofnodion draenio
- defnydd ynni
- gwybodaeth am lefelau traffig
- gwybodaeth tir halogedig
- gwybodaeth metel sgrap

- cyflwr ffyrdd
- gwasanaeth casglu sbwriel
- ardaloedd rheoli mwg
- Amod 29 Cwestiwn 1(1)(a) - caniatâd cynllunio
- Amod 29 Cwestiwn 1(2) – dynodiadau a chynigion cynllunio
- Amod 29 Cwestiwn 2(a) - priffyrdd y cynhelir ar draul y cyhoedd
- Amod 29 Cwestiwn 3(2) – cytundebau a chysyniadau draenio
- Amod 29 Cwestiwn 3(5) – cynlluniau rheilffordd gerllaw
- Amod 29 Cwestiwn 3(9)(b) – hysbysiadau atal
- Amod 29 Cwestiwn 3(13) – nwy radon
- Amod 29 cwestiwn 3(7) – hysbysiadau sy'n weddill – (3)(7) (a) gwaith adeiladu, (3)(7)(b) amgylchedd, (3)(7) (d) tai, (3)(7) (e) priffyrdd, (3)(7)(g) llifogydd ac erydu arfordirol. Mae'r wybodaeth hon yn amgylcheddol yn bennaf, ond mae'n bosibl yr ystyrir bod rhai rhannau yn dod o fewn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

## Gwybodaeth nad yw'n amgylcheddol - felly yn dod o fewn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth:

- cofrestriadau llety anifeiliaid;
- cofrestriad eiddo bwyd;
- trwyddedau eiddo ar gyfer clybiau; a
- rheoleiddiad tyllu'r croen.
- gwybodaeth labelu bwyd
- Amod 29 cwestiwn 1.1(d) ac 1.1(e) – tystysgrif cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad presennol/bwriedig; a
- Amod 29 cwestiwn 3.7 - hysbysiadau sy'n weddill - rhannau 3(7)(c) ac (f) (iechyd a diogelwch ac iechyd y cyhoedd). Rhyddid Gwybodaeth yw'r wybodaeth hon yn bennaf, ond gellir ystyried bod rhai rhannau yn dod o fewn y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

# Polisi a Gweithdrefnau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

## Atodiad C

### Eithriadau (esemptiadau) o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

- Gwybodaeth na chynhelir 12 (4) (a)
- Blinderus/Terfyn Cost 12 (4)(b)
- Cais yn rhy gyffredinol 12(4) (c)
- Dogfennau heb eu cwblhau 12 (4) (d)
- Cyfathrebu Mewnol 12 (4) (e)
- Diogelwch y Cyhoedd 12 (5)(a)
- Cwrs Cyfiawnder (12 (5) (b)
- Hawliau Eiddo Deallusol 12 (5) (c)
- Cyfrinachedd trafodion 12 (5) (d)
- Cyfrinachedd gwybodaeth fasnachol 12 (5) (e)
- Gwybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol 12 (5) (f)
- Diogelu’r Amgylchedd 12(5) (g)

## Atodiad E

### Chwiliadau Eiddo

Chwiliadau Eiddo yn bennaf yw ceisiadau am wybodaeth amgylcheddol, er mae’n bosibl na fydd rhywfaint o wybodaeth rheoliadau adeiladu. Caniateir codi tâl am Chwiliadau Swyddogol gan fod yr awdurdod yn darparu gwasanaeth yn ogystal â mynediad i ddata.

### Chwiliadau Swyddogol

#### Chwiliadau CON29R Llawn

Rheoliadau Ffioedd am Chwiliadau Eiddo 2008 (Cymru) sy'n llywodraethu'r broses o bennu ffioedd CON29. Caiff y chwiliadau hyn eu cwblhau'n llawn gan yr awdurdod a'u hardystio fel rhai cywir. Mae’r ffi ar gyfer eiddo preswyl ar hyn o bryd yn £140 ac mae’r ffi ar gyfer eiddo masnachol hefyd yn £140.

# Polisi a Gweithdrefnau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

### Chwiliadau Rhan CON29 (CON29O)

CON29O (C.4 i 21): £12 fesul cwestiwn

CON290 (C.22): £30

### Chwiliadau LLC1

Mae'r ffi ar gyfer LLC1 yn sefydlog gan statud yng Nghymru. Cronicliad 18 o'r Gyfarwyddeb. £4 yw'r ffi ar hyn o bryd.

### Cwestiynau Con29 Sengl

Yr ateb i gwestiwn Con29 penodol ble na ofynnir i'r awdurdod ddarparu chwiliad CON29R llawn. Caiff y rhain eu prosesu yn yr un modd â cheisiadau EIR safonol, yr ymatebir iddynt o fewn 20 diwrnod gwaith.

## Map Diffiniol

Lle gwneir ymholiad yn gofyn am gopi ysgrifenedig o union leoliad y llwybr troed, codir tâl statudol o £15, lle mae hyn yn gysylltiedig â chludo neu chwiliad pridiant tir.

Mae'n ddyletswydd arnom i gadw'r Map Diffiniol ar gael i'r cyhoedd ei archwilio yn swyddfeydd y cyngor. Mae Cynghorau Cymuned hefyd yn cadw copïau. Mae'n ofynnol, os gofynnir, i wneud copïau ar gael. Fodd bynnag, rydym wedi ein cyfyngu i ddarparu argraffiad A4 o ranfap o dan ein trwydded Arolwg Ordnans, a gall ceiswyr gyfeirio eu hymholiadau i Arolwg Ordnans ar gyfer dewisiadau pellach.